Cristina Nicolotti Squires
Cyfarwyddwr Grŵp, Darlledu a'r Cyfryngau

Rhodri Talfan Davies
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
BBC

Drwy e-bost yn unig

2 Tachwedd 2026

Annwyl Rhodri,

Mae'r BBC wedi cyhoeddi cyfres o fesurau i arbed costau, ynghyd â newidiadau cysylltiedig i wasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Rwy'n ysgrifennu i ofyn am drosolwg cyfunol o sut mae'r BBC yn bwriadu cyflawni'r £200 miliwn gyntaf o arbedion, a'r sail dros y penderfyniadau hynny.

Wrth gwrs, rôl y Bwrdd yw cymryd cyfrifoldeb am lywodraethu, cyllidebau, polisi golygyddol, a chyfeiriad strategol a chreadigol y BBC. Rôl Ofcom, fel y rheoleiddiwr annibynnol, yw dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled y DU yn cael eu gwasanaethu'n dda. Nid oes gan Ofcom rôl wrth benderfynu pa wasanaethau y dylai'r BBC eu darparu.

Rydym yn cydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu'r BBC a'r angen i wneud dewisiadau anodd. Fodd bynnag, mae'r mesurau hyd yn hyn wedi'u cyfathrebu trwy gyfres o gyhoeddiadau ar wahân. O'u hystyried ar wahân, nid ydynt yn rhoi darlun clir o effaith gronnol y rhaglen arbedion ar wasanaethau, cynnwys a chynulleidfaoedd y BBC, na sut y bydd strategaeth y BBC yn sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus.

Er mwyn ein galluogi i asesu goblygiadau'r arbedion arfaethedig, hoffem i'r BBC ddarparu trosolwg cyfunol sy'n ymdrin â'r canlynol: yr arbedion sydd wedi'u cyhoeddi neu sy'n cael eu hystyried, ynghyd ag amserlen ar gyfer eu gweithredu; y gwasanaethau, y rhaglenni a'r gweithgarwch comisiynu yr effeithir arnynt, gan gynnwys unrhyw gynlluniau i gau neu leihau gwasanaethau, neu wneud newidiadau sylweddol iddynt; asesiad o'r effaith ddisgwyliedig ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys grwpiau penodol o gynulleidfaoedd a chynulleidfaoedd ar draws Cenhedloedd a Rhanbarthau'r DU; y camau lliniaru y mae'r BBC yn eu cynnig, o ystyried yr effaith debygol ar faint, amrywiaeth a natur y cynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd; a sut mae'r BBC yn bwriadu monitro a yw anghenion cynulleidfaoedd yn parhau i gael eu diwallu.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chynnwys a gwasanaethau sy'n cyfrannu at unigrywiaeth, gan gynnwys newyddion a rhaglenni sy'n galluogi'r BBC i gysylltu â phob cynulleidfa ledled y DU.

O ystyried y cyhoeddiadau parhaus, mae'n bwysig ein bod yn cael y darlun cliriach hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Cristina Nicolotti Squires